# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias & Sara Dafydd

| | |
|---|---|
| **NOD CYNLLUN LLESIANT** | Nod pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yw mynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol, gan gyflenwi drwy fframwaith yn seiliedig ar lefydd. Mae'n blaenoriaethu integreiddio a chyfrannu ar gyfer cydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw Grŵp Prosiect** | Llesiant Llanbedr Pont Steffan |
| **Cadeirydd**<br>**Is-Gadeirydd** | **Greg Jones**, Cyngor Sir Ceredigion<br>**Gwilym Dyfri Jones**, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Timothy Bray**, **Sara Dafydd, Carwyn Young, Rhidian Harries, Robb Starr,** Cathryn Morgan, **Connor Cook,** Sarah Groves-Phillips, Gethin Jones, Llinos Hallgarth, Lowri Evans**, Lynne Walters, Rachel Auckland**, Alison Heal, Cllr Ann Bowen Morgan, Sian Salcombe, Sara Humphreys, **David Jones**, **Bethan James**, **Anwen Thomas, Teleri Elias** | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies, **Rachel Jarvis**, Thomas Vetter |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Jina Hawkes, Peter Skitt, Terri-Ann Patrick, Dr Philip Kloer, **Nathan Davies**, William Beharrell | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Emyr Jones, **Hazel Thomas** |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Heddlu Dyfed-Powys | Yr Arolygydd Matthew Howells | Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | **Wayne Thomas** |
| Barcud | Catrin Owen, Helen Draycott | CAVO | Hazel Lloyd-Lubran, **Teleri Davies** |
| Home-Start | Sharon Morris | Ysgol Bro Pedr | Deiniol Williams |
| Banc Bwyd Llambed | Julia Lim | Canolfan Teulu Llambed | Elin Miles, Jen Leigh |
| Arts4Wellbeing | Mike Hotson, Sara Wentworth | Tai Wales & West | Rhiannon Ling |
| Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Roxanne Treacy, Vikki Butler | | |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 20.07.23**

**<u>7.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:</u>** Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Nodwyd bod y canlynol wedi ymddiheuro am na fedrent ddod i'r cyfarfod:
*Y Cynghorydd Ann Morgan, Elen James, Deiniol Williams, Gethin Jones, Jina Hawkes, Julia Lim, Dr Phil Kloer, Peter Skitt, Sarah Groves-Phillips a Sian Salcombe*. Nodwyd bod Gethin Jones ar secondiad gyda Llywodraeth Cymru ac y byddai David Jones (DJ) yn dod i gyfarfodydd y grŵp prosiect o hyn ymlaen.

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn cysylltu â DJ a byddai'n ychwanegu ei enw at y rhestr ddosbarthu.**

**<u>7.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol:</u>**
Cyflwynodd Greg Jones (GJ) gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 03.05.23. Cytunwyd bod pob cam gweithredu naill ai wedi'u cwblhau neu ar waith. Cadarnhawyd y byddai GJ, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Arweiniol Corfforaethol newydd Porth Cymorth Cynnar, yn ymgymryd â rôl Cadeirydd y grŵp prosiect. Hefyd, diolchodd GJ i Gwilym Dyfri Jones (GDJ) am dderbyn

DRAFT

rôl yr is-gadeirydd yn y cyfarfod diwethaf. Dywedodd GJ fod cyfarfod eithriadol o'r grŵp prosiect wedi'i gynnal ar 10 Gorffennaf 2023 i glywed cyflwyniad Dr Phil Kloer (PK) am Greu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion ac y byddai Nathan Davies (ND) yn rhoi diweddariad yn ddiweddarach yn y cyfarfod hwn.

**<u>7.3 Diweddariad: Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 - Strwythur Llywodraethu a Chyflawni'r Cynllun Llesiant:</u>**
Dywedodd Tim Bray fod y Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer 2023-2028 wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mai a bod Strwythur Llywodraethu a Chyflawni ar waith ar hyn o bryd a oedd yn amlinellu sut y byddai pob amcan a thasg yn y Cynllun Llesiant yn cael eu cyflawni yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Cadarnhaodd TB ei fod ef a Diana Davies (DD) wedi cwrdd yn ddiweddar â Chadeirydd ac Is-gadeirydd newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), Hazel Lloyd-Lubran (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion) a Gavin Bown (Cyfoeth Naturiol Cymru), i drafod y ffordd orau o fwrw ymlaen â chyflawni'r gwaith a chytuno ar hynny. Gan fod y Cynllun Llesiant yn cynnwys nifer o dasgau o dan bob amcan, cytunwyd yn y cyfarfod hwn y dylid trefnu'r tasgau a'u blaenoriaethu i sicrhau bod nifer llai o weithgareddau yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn llwyddiannus. Awgrymodd Hazel Lloyd-Lubran y dylid cynnal 4 gweithdy hybrid, gyda phob un ohonynt yn canolbwyntio ar y 4 amcan a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Llesiant Lleol. Cadarnhaodd TB y byddai'r gweithdai yn cael eu cynnal rhwng mis Medi a mis Rhagfyr, ac y byddai'r swyddogion yn cysylltu ag aelodau'r Bwrdd i ganfod a fyddent ar gael i weithredu fel hwyluswyr ym mhob sesiwn. Byddai'r cam gweithredu arfaethedig hwn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Medi. Dywedodd TB fod trafodaethau wedi eu cynnal yng nghyfarfodydd y Bwrdd o ran lansio'r Cynllun Llesiant Lleol ond bod yr aelodau wedi cytuno y dylid bwrw ymlaen â hyn unwaith y byddai'r gwaith o flaenoriaethu'r tasgau wedi'i gadarnhau.

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn dosbarthu fersiwn ddrafft Strwythur Llywodraethu a Chyflawni Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028.**

Gofynnodd GJ a fyddai enwau'r grwpiau prosiect yn cael eu newid o ystyried bod y cyfnod peilot bellach wedi dod i ben. Er bod y 3 grŵp prosiect ar hyn o bryd yn seiliedig ar lefydd, cadarnhaodd TB y byddai ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i statws grŵp prosiect Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio gan fod awgrym y byddai'r grŵp hwn yn elwa o fod yn grŵp thematig oherwydd natur eang ei weithgareddau. Roedd grwpiau prosiect Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn canolbwyntio ar weithgareddau a oedd yn seiliedig ar lefydd ac roedd yn ymddangos mai dyna oedd y ffordd orau o gyflawni eu gwaith ar hyn o bryd.

**<u>7.4 Cyflwyniad: Adroddiad Gwaelodlin Llanbedr Pont Steffan:</u>**

DRAFT

Cyflwynodd Rob Starr (RS) Adroddiad Gwaelodlin Tlodi ac Amddifadedd Llanbedr Pont Steffan a oedd wedi'i baratoi gan Dîm Perfformiad ac Ymchwil Cyngor Sir Ceredigion ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Roedd y ddogfen hon yn ategu'r data gwaelodlin gwreiddiol ac roedd yn crynhoi'r dystiolaeth a oedd ar gael yn yr ardaloedd daearyddol llai o faint er mwyn cryfhau ein dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â thlodi ac amddifadedd yn Llanbedr Pont Steffan. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y data a gyflwynwyd yng nghyswllt Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llanbedr Pont Steffan 1 a Llanbedr Pont Steffan 2 sef y dref a'r ardaloedd cyfagos. Tynnodd RS sylw at y penawdau allweddol a'r prif ganfyddiadau. Yn benodol, cyfeiriwyd at y meysydd canlynol o amddifadedd ar draws y ddwy ardal:

| **Llanbedr Pont Steffan 1** | **Llanbedr Pont Steffan 2** |
| --- | --- |
| • Tai (o fewn y 10% mwyaf difreintiedig)<br>• Diogelwch Cymunedol (o fewn yr 20% mwyaf difreintiedig) | • Mynediad at wasanaethau (o fewn y 30% mwyaf difreintiedig)<br>• Addysg, Cyflogaeth a Diogelwch Cymunedol (o fewn y 40% mwyaf difreintiedig)<br>• Incwm (o fewn y 50% mwyaf difreintiedig) |

Gallwch weld yr adroddiad llawn isod. Cadarnhawyd y byddai'r adroddiad hefyd yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod ac y byddai hefyd ar gael ar dudalen y grŵp prosiect ar Teams.

PDF

Lampeter Poverty and Deprivation Basel

Wrth ymateb i gwestiwn oddi wrth Nathan Davies (ND) ynglŷn â phoblogaeth y 2 ardal, nododd RS mai dim ond ychydig o wahaniaeth a fodolai - roedd gan Lanbedr Pont Steffan 1 boblogaeth o 1,385 ac roedd gan Lanbedr Pont Steffan 2 boblogaeth o 1,476. Gofynnodd Rachel Jarvis (RJ) a oedd gan y grŵp prosiect unrhyw gysylltiadau â Grŵp Cymunedol Longwood a oedd wedi'i leoli nid nepell o Lanbedr Pont Steffan. Y gymuned oedd yn berchen ar y grŵp ac roedd y grŵp yn cael ei reoli fel cwmni cyfyngedig nid-er-elw. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn cysylltu â Longwood i sicrhau bod y cysylltiadau yn cael eu gwneud.

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r swyddogion yn cysylltu â Grŵp Cymunedol Longwood.**

DRAFT

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn dosbarthu Adroddiad Gwaelodlin Llanbedr Pont Steffan gan sicrhau ei fod hefyd ar gael ar dudalen y grŵp prosiect ar Teams.**

**7.5 Diweddariad: Canolfan Les Llanbedr Pont Steffan:**

Cadarnhawyd bod y Ganolfan Les yn Llanbedr Pont Steffan bellach ar agor. Roedd y Ganolfan wedi cael ei agor fesul cam gan ei bod yn aros i'r dodrefn diwethaf gyrraedd ond y gobaith oedd y byddai popeth yn ei le erbyn diwedd y mis. Dywedodd Carwyn Young (CY) y byddai agoriad swyddogol yn cael ei gynnal ym mis Medi, ac ychwanegodd fod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru (LlC) sef prif gyllidwyr y Ganolfan. Y gobaith oedd y byddai modd trefnu diwrnod o hwyl cymunedol. Dywedodd CY fod y gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig yn cael eu hehangu - ar hyn o bryd roeddent yn cynnal dosbarthiadau ar gyfer y sawl a oedd yn cael eu cyfeirio at y ganolfan gan eu meddygon teulu, sesiynau yn yr ystafelloedd ffitrwydd, a digwyddiadau hyfforddi a'r gobaith oedd gweld mwy o bobl yr ardal yn cymryd rhan yn y gweithgareddau o ystyried y cynnydd diweddar yn yr aelodaeth. Cafwyd grant i osod wyneb newydd ar y cwrt tennis ger y maes parcio gyferbyn â'r Ganolfan Les a byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud erbyn mis Hydref. Byddai hyn hefyd yn gwella'r ddarpariaeth a gynigir. Adeg y cyfarfod, nid oedd dim gwybodaeth ar gael am gapasiti'r ystafelloedd, ond y gobaith oedd y byddai modd paratoi cynlluniau ar gyfer pob ystafell unwaith y byddai'r dodrefn yn eu lle. Dywedwyd y dylid cyfeirio unrhyw geisiadau i archebu ystafelloedd yn y Ganolfan Les at Rhidian Harris (RhH).

**CAM GWEITHREDU: Dylid anfon unrhyw gais i archebu'r ystafelloedd yng Nghanolfan Les Llanbedr Pont Steffan at Rhidian Harries.**
**CAM GWEITHREDU: Byddai manylion agoriad swyddogol Canolfan Les Llanbedr Pont Steffan yn cael eu rhannu â'r aelodau ar ôl i'r swyddogion gael cadarnhad oddi wrth Lywodraeth Cymru.**

Awgrymodd RJ y dylid cynnal un o weithdai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Ganolfan Les yn yr hydref, a chynigiodd GJ fod cyfarfod nesaf y grŵp prosiect a oedd i'w gynnal rhwng 10am a 12pm ar 19 Hydref hefyd yn cael ei gynnal yn y Ganolfan. Cytunodd y grŵp y byddai cyfarfod nesaf y grŵp prosiect yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb yn y Ganolfan ac y byddai'r trefniadau'n cael eu gwneud trwy RhH.

Gofynnodd Rachel Auckland (RA) a fyddai modd tyfu coed wrth ymyl y cyrtiau chwaraeon fel rhan o gynllun y Coedtiroedd Bach. Wrth ymateb, dywedodd CY mai'r bwriad ar hyn o bryd oedd gosod wyneb newydd dros yr ardal gyfan ac felly na fyddai modd tyfu coed. Serch hynny, dywedodd y byddai'n cadw hyn mewn cof pe byddai'r cyfle'n codi. Nododd RA fod gan Lywodraeth

DRAFT

Cymru gyllid ar gyfer tyfu coed ar hyn o bryd, a gofynnodd i'r aelodau gysylltu â hi os oeddent yn ymwybodol o unrhyw safleoedd a fyddai'n addas ar gyfer y prosiect hwn.

**7.6 Diweddariad: Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion:**
Rhoddodd ND drosolwg o'r cyflwyniad ynghylch Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion a oedd yn seiliedig ar fwriad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i symud tuag at Fodel Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant. Cydnabuwyd bod gan y system gofal iechyd rai problemau systematig megis materion yn ymwneud â pherfformiad, amseroedd aros, mynediad i feddygfeydd a deintyddion, yn ogystal ag anghydraddoldebau a mynediad at wasanaethau. Roedd hefyd heriau i'r gweithlu o ran recriwtio a chadw staff. Roedd strategaeth 20 mlynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymrwymo i newid y modd yr oedd gwasanaethau yn cael eu darparu o Fodel Iechyd Biofeddygol i Fodel Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant, a fyddai'n ystyried ffactorau ehangach o ran iechyd megis addysg, incwm a thai. Hyd yma, roedd y gwaith hwn wedi cynnwys tair elfen sylweddol o waith:

- Adolygiad o'r deunydd academaidd yr oedd Prifysgol Aberystwyth wedi'i baratoi a oedd yn seiliedig ar y term Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant. Nod hyn oedd darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i'r Bwrdd Iechyd a'i phartneriaid fel y gallent wneud newidiadau strategol a gweithredol er mwyn darparu adnodd dysgu a fyddai o fudd i bawb, gan ddysgu o'r hyn a oedd eisoes wedi'i ysgrifennu a nodi'r bylchau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.
- Roedd sgyrsiau rhithiol pwrpasol un-i-un wedi'u cynnal gydag arweinwyr ledled Cymru a oedd yn meddu ar brofiad o ddylanwadu ar un o'r ffactorau cymdeithasol o ran iechyd fel y gellid casglu eu barn am yr hyn oedd yn gweithio'n dda yn y system gofal iechyd a sut y gellid mynd ati i newid o'r un model i'r llall.
- Yn olaf, roedd gwaith ymgysylltu uniongyrchol â'r cyhoedd wedi'i gynnal fel rhan o'r broses o werthuso'r gwasanaeth ar ôl Covid.

Dywedodd ND fod yr adolygiad o'r deunydd yn dangos nad oedd neb hyd yma wedi cytuno ar ddiffiniad pendant o'r Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant ac er y byddai modd defnyddio'r model o fewn adrannau penodol (e.e. mamolaeth), nid oedd dim enghreifftiau ynghylch sut y byddai modd ei ddefnyddio ar draws y gwasanaeth. Gwnaed gwaith triongli i nodi a oedd unrhyw themâu cyffredin ar draws y 3 maes gwaith hwn. Yn sgil hyn, nodwyd 9 thema gyffredin gan gynnwys anghydraddoldeb a'r angen i wrando ar gymunedau, ymgysylltu â nhw a'u grymuso. Er mwyn troi'r themâu hyn yn feysydd o waith y byddai modd ymdrin â nhw yn haws, penderfynwyd canolbwyntio ar y 3 maes canlynol: Y Gweithlu, Partneriaethau a Chymunedau. Bwriad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oedd ystyried ffyrdd o gydweithio wrth ddarparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol gan

gefnogi'r hyn oedd eisoes yn digwydd gyda phartneriaid yn Llanbedr Pont Steffan er mwyn symud tuag at y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant. Er nad oedd amserlen ar gyfer y prosiect ar hyn o bryd, roedd cynllun trosfwaol wedi'i gyflwyno i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac roedd y cynllun hwnnw wedi'i gymeradwyo. Y gobaith oedd y gallai'r gweithgareddau a oedd wedi'u cynnig yn y cynllun ddechrau yn ystod yr haf. Cytunwyd y dylai'r eitem hon barhau'n eitem sefydlog ar agenda'r grŵp.

Dywedodd GDJ fod Prifysgol y Drindod Dewi Sant wedi bod yn paratoi teithiau cerdded llesiant gydag Angela Burns (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda). Y gobaith oedd y byddai'r teithiau hyn yn dechrau ym mis Medi ac y byddent yn cael eu cynnal ar y campws bob dydd Mercher.

**CAM GWEITHREDU: Byddai Creu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion yn parhau'n eitem sefydlog ar agenda'r grŵp prosiect.**
**CAM GWEITHREDU: Byddai'r bwriad o greu cysylltiadau yn y dyfodol rhwng Greg Jones / Carwyn Young a Dr Phil Kloer / Nathan Davies yn cael ei ystyried wrth i'r gwaith fynd rhagddo.**
**CAM GWEITHREDU: Byddai manylion y Teithiau Cerdded Llesiant ar ddydd Mercher yn cael eu rhannu â'r grŵp pan fyddent ar gael.**

**<u>7.7 Eitem Sefydlog: A oes angen i ni drafod unrhyw fater a godwyd â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru?:</u>**
Bu i SD atgoffa aelodau'r grŵp fod Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus tan 2026 i gefnogi'r gwaith ymarferol ac i ddatblygu prosesau ymgysylltu ystyrlon. Roedd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru wedi hwyluso ymgynghoriad y Cynllun Llesiant Lleol ac roedd yn awr yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun. Awgrymodd SD y byddai'n fuddiol ystyried sut y gall Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru gefnogi gwaith y grŵp prosiect yn y dyfodol ar ôl i'r gweithdai gael eu cynnal ac i'r blaenoriaethau gael eu nodi a'u trefnu.

**CAM GWEITHREDU: Er mwyn atgoffa pawb, byddai Sara Dafydd yn ail-ddosbarthu'r cyflwyniad a roddwyd gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ym mis Ionawr.**

**<u>7.8 Unrhyw Fater Arall:</u>**
Dywedodd RA fod y Bartneriaeth Natur Lleol wedi derbyn arian oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau natur lleol. Roedd y Grant Cymorth Rhandiroedd wedi'i ddefnyddio i ddatblygu rhandiroedd ar draws y sir gan gynnwys Gwêl y Creuddyn yn Llanbedr Pont Steffan. Roedd RA hefyd yn gobeithio y byddai'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'r prosiectau yng Nghanolfan Creuddyn a chadarnhaodd y byddai digwyddiad i lansio'r Ardd Hinsawdd yn cael ei gynnal ar 29 Gorffennaf. Byddai teithiau cerdded yn seiliedig ar dyfu bwyd a bwyd da i'w fwyta yn cael eu cynnal ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a gobaith RA oedd y

DRAFT

byddai modd cysylltu'r holl gynlluniau hyn wrth symud ymlaen. Byddai Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd yn cynnal Digwyddiad Cynaliadwyedd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Nid oedd Eirlys Lloyd (EL) a roddodd ddiweddariad am y Grant Partneriaethau Bwyd Lleol yn y cyfarfod diwethaf yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn ond roedd wedi rhannu gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf cyn y cyfarfod. Roedd Menter a Busnes wedi'i gomisiynu i hwyluso'r gwaith o gydlynu'r Bartneriaeth Bwyd Lleol a byddai'r adroddiad cyntaf am y gwaith mapio yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd mis Awst. Roedd EL wedi awgrymu y dylai Menter a Busnes roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd GDJ a fyddai modd i Laura Kate O'Driscoll a oedd yn un o fyfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gyflwyno ei hymchwil o ran 'Prosiect Pobl Ifanc Llanbedr Pont Steffan'. Hefyd, rhannodd GDJ wybodaeth â'r grŵp am ddigwyddiadau a fyddai'n cael eu cynnal ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gan gynnwys digwyddiad sinema yn yr awyr agored ar 21 Gorffennaf a digwyddiad tebyg ar 12 Awst.

**CAM GWEITHREDU: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu manylion Wythnos Cynaliadwyedd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ag aelodau'r grŵp.**
**CAM GWEITHREDU: Byddai'r eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf yn cynnwys Partneriaeth Fwyd Ceredigion a byddai Laura Kate O'Driscoll yn cael ei gwahodd i gyflwyno ei hymchwil o ran 'Prosiect Pobl Ifanc Llanbedr Pont Steffan'.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser a daeth â'r cyfarfod i ben.

**7.9 Cyfarfod nesaf:** 19.10.23 10:00-12:00 yng Nghanolfan Les Llanbedr Pont Steffan

DRAFT